**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **18 RHAGFYR 2008** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 TACHWEDD 2008** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1$^{af}$ Medi 2008 hyd at 30$^{ain}$ Tachwedd 2008.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 3 mis hyd at 30$^{ain}$ Tachwedd 2008:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynllunwyd | 19 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 1 |
| Archwiliadau Dilyniant | 9 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30ain Tachwedd 2008, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| CYFADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | | Cyfundrefn Rheoli Prosiectau | B | Atodiad 1 |
| Corfforaethol | | Rheoli Cytundebau Caffael Corfforaethol ar ôl eu gosod | C | Atodiad 2 |
| Corfforaethol | | Rheolaeth Corfforaethol – Penderfyniadau Pwyllgorau ac Arweinyddion Portffolio | B | Atodiad 3 |
| Corfforaethol | | Effaith Arbedion Ariannol ar yr Amgylchedd Reolaeth | B | Atodiad 4 |
| Corfforaethol | | Trefniadau Recriwtio a Phenodi Staff | B | Atodiad 5 |
| Adnoddau | Cyllid | Adolygu Trothwyon Gwirio | B | Atodiad 6 |
| Adnoddau | Cyllid | System Dyledwyr - Trefniadau Atal Dyledion | C | Atodiad 7 |
| Amgylchedd | Ar draws y gyfadran | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru - Rheolaeth Twnel | A | Atodiad 8 |
| Datblygu | Economi ac Adfywio | Cynllun Cefnogaeth Dechnegol | B | Atodiad 9 |
| Datblygu | Ysgolion | Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | B | Atodiad 10 |
| Datblygu | Uned Gyllid Datblygu | Cronfeydd Ymddiriedol Ysgolion | B | Atodiad 11 |
| Gofal | Tai | Incwm Rent Tai | B | Atodiad 12 |
| Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | Anabledd Corff - Rheolaeth Bathodynnau Glas | B | Atodiad 13 |
| Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | Trefniadau ar Alwad a Brys | B | Atodiad 14 |
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl | C | Atodiad 15 |
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu Ardal Meirionnydd | B | Atodiad 16 |

| CYFADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Cartref Henoed Plas Ogwen, Bethesda | B | Atodiad 17 |
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Cartref Henoed Plas Pengwaith, Llanberis | B | Atodiad 18 |
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Cartref Henoed Plas Gwilym, Penygroes | B | Atodiad 19 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn:

- Gweinyddiaeth Tocynnau Mantais Trafnidiaeth Gyhoeddus *(Cyfadran Adnoddau)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | CYFADRAN | GWASANAETH | CATEGORI BARN GWREIDDIOL | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|---|
| System "Amser Cywir" Bws Gwynedd | Amgylchedd | Cynllunio a Thrafnidiaeth | C | **Derbyniol** |
| Cartref Bontnewydd | Datblygu | Plant a Theuluoedd | C | **Derbyniol** |
| Grant AHNE Llyn | Amgylchedd | Cynllunio a Thrafnidiaeth | B | **Derbyniol** |
| Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd | Amgylchedd | Cynllunio a Thrafnidiaeth | B | **Derbyniol** |
| Gwastraff Masnachol | Amgylchedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | B | **Derbyniol** |
| Trefn Archwiliadau Ffyrdd | Amgylchedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | B | **Derbyniol** |
| Taliadau Uniongyrchol | Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | C | **Rhagorol** |
| Archwilio Rhestr Gweithwyr (Cyfadran Datblygu) | Datblygu | Uned Gefnogol Datblygu | C | **Derbyniol** |
| Archwilio Rhestr Gweithwyr (Cyfadran yr Amgylchedd) | Amgylchedd | Uned Gefnogol Amgylchedd | C | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn danogos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2008**
System Tracio Gohebiaeth Corfforaethol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2009**
Prosesu Costau Teithio, Cyfadran yr Amgylchedd
Rheoli Cytundebau Caffael Corfforaethol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2009**
Defnydd Ymgynghorwyr
Cyfrifiaduron Arunig
System Dyledwyr - Trefniadau Atal Dyledion
Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1[af] Rhagfyr 2008.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Diogelwch Rhwydwaith (gan gynnwys Mynedfa Citrix) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Effeithlonrwydd y Strwythr Codio *(Cyfadran Adnoddau)*
- TGCh: Rhannu Gwybodaeth *(Cyfadran Adnoddau)*
- Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Corfforaethol) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Ysgolion) *(Cyfadran Datblygu)*
- Cydymffurfiaeth â rheoliadau Contruction Design Management (CDM) *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Cyfraniadau Gwresogi gan Denantiaid *(Cyfadran Gofal)*
- Anabledd Dysgu – Canolfannau Dydd Ardal Arfon *(Cyfadran Gofal)*
- Anabledd Dysgu – Canolfannau Dydd Ardal Dwyfor *(Cyfadran Gofal)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Cofrestr Contractau Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau: Adrodd ar Or-wariant *(Corfforaethol)*
- Fformiwla Cyllido Ysgolion *(Cyfadran Datblygu)*
- Grant Gwella Adeiladau Ysgolion *(Cyfadran Datblygu)*
- Systemau derbyn arian *(Cyfadran Adnoddau)*
- Treth Cyngor - cofrestru eiddo newydd *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trefniadau Anfonebu Mewnol *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trosglwyddiadau o systemau ariannol ysgolion *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trefniadau Cychwyn, Addasiadau a Therfynu Gweithwyr *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trosglwyddo a Chysoni System Bwydo'r Prif Gyfriflyfr *(Cyfadran Adnoddau)*
- Menter Twyll Genedlaethol (NFI) *(Corfforaethol)*
- Cynllunio - Gorfodaeth *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio *(Cyfadran Datblygu)*
- Dyletswyddau Llywodraethwyr (Ysgolion Cynradd) *(Cyfadran Datblygu)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Cyfadran Datblygu)*
- Gosodiadau Ysgolion Cynradd *(Cyfadran Datblygu)*
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu *(Cyfadran Datblygu)*
- Costau Gweithwyr Cefnogol *(Cyfadran Gofal)*
- Rheolaeth Cytundeb Apetito *(Cyfadran Gofal)*
- Anabledd Corff - Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa *(Cyfadran Gofal)*
- Cofrestr Anabledd Dysgu - rheolaethau sicrhau cyflawnder *(Cyfadran Gofal)*
- Plant - Lleoliadau All-Sirol *(Cyfadran Datblygu)*
- Gweinyddiaeth a Rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd *(Cyfadran Datblygu)*
- Cynnal Tiroedd *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Strategaeth Gwastraff - Datblygiadau Rhanbarthol *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Siwrne Saff *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Menter "Yma i Helpu" *(Cyfadran Gofal)*
- Cyfrifon Terfynol: Tai *(Cyfadran Gofal)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1[af] Medi 2008 i 30[ain] Tachwedd 2008, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisioes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# CYFUNDREFN RHEOLI PROSIECTAU
## Corfforaethol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod prosiectau'r Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â Chyfundrefn Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd sydd yn seiliedig ar fethodoleg PRINCE2.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Dethol prosiectau penodol ac ymholi beth yw'r prosesau a'r trefniadau mewn perthynas â'r prosiectau hynny. Yna profi, gwerthuso a dilysu'r prosesau a threfniadau drwy adolygu'r ffeiliau priodol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Darganfuwyd bod y pedwar prosiect a adolygwyd yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda gofynion y Llawlyfr Rheoli Prosiectau. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai Rheolwyr Prosiect yn gwyro ychydig i ffwrdd o'r canllawiau tra bod dogfennau a baratoir ar rai adegau yn rhagori ar ofynion y Llawlyfr. Y prif wendidau a amlygwyd oedd:

- Methiant i benodi aelodau'r Bwrdd Rheoli Prosiect yn amserol;
- Diffyg rhaglennu prosiectau sy'n golygu bod rhai swyddogion yn aelodau o sawl Bwrdd Prosiect;
- Methiant i gofnodi manylion a gwybodaeth ar y ffurflenni perthnasol.

Erbyn hyn, nid yw'n eglur beth yw'r sefyllfa gydag un o'r prosiectau a adolygwyd, sef y Prosiect Fframwaith Contractwyr, yn sgil penodiad y Rheolwr Prosiect i swydd arall o fewn y Gwasanaeth. Gwnaethpwyd ymholiadau gyda swyddogion o'r Uned Polisi Prif Weithredwr ond ymddengys nad oedd unrhyw un yn ymwybodol o sefyllfa'r prosiect ac os oedd am barhau ai peidio.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yng nghydymffurfiaeth swyddogion gyda'r Llawlyfr Rheoli Prosiectau Corfforaethol gan fod elfennau o gydymffurfiad, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried rhaglennu prosiectau yn briodol fel nad yw baich gwaith ar unrhyw adeg yn sylweddol, bydd hyn yn sicrhau bod pob prosiect yn derbyn sylw teilwng.**
- **Dylid sicrhau bod aelodau'r tîm rheoli prosiect yn cael eu penodi yn y cam Agor Prosiect - ni all prosiect symud yn ei flaen heb arweiniad angenrheidiol y Bwrdd Prosiect.**
- **Er sicrhau cydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Rheoli Prosiect dylid sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei gofnodi ar y ffurflenni priodol a ddyluniwyd.**

<u>Llyfryddiaeth:</u>
Llawlyfr Rheoli Prosiectau, Cyngor Gwynedd (Fersiwn 1, Tachwedd 2006)

# RHEOLI CYTUNDEBAU CAFFAEL CORFFORAETHOL AR ÔL EU GOSOD
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod rheolaeth dros gytundebau corfforaethol sydd dan reolaeth yr Uned Caffael neu wedi eu trosglwyddo i'r Cyfadrannau, wedi iddynt gael eu sefydlu gan yr Uned Gaffael; yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaethau'n ymlynu gydag amodau'r cytundeb a/neu ganllawiau eraill a dderbyniwyd ynghylch y cytundeb.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad wedi ei gyfyngu i adolygiad o bedwar cytundeb corfforaethol sydd wedi eu sefydlu, gan adolygu beth oedd y trefniadau o drosglwyddo rheolaeth y cytundeb i'r Cyfadrannau, ynghyd â gwirio pa wybodaeth a roddwyd i'r swyddogion sydd yn defnyddio'r cytundebau o ddydd i ddydd.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae'r Uned Caffael wedi llwyddo i sefydlu nifer o gytundebau a threfniadau corfforaethol er mwyn arbed arian i'r Cyngor, fodd bynnag gwelwyd fod diffyg rheolaeth a threfniadau monitro yn dilyn sefydlu rhai o'r cytundebau hyn.

Amlygwyd nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o ba swyddogion oedd gyda cherdyn pryniant cadwyn o siopau stryd fawr, gan nad oedd rhestr yr Uned Caffael yn gyflawn gan fod swyddogion yn anfon ffurflen gais am y cerdyn yn uniongyrchol i'r cwmni, ac nid oedd y rhestr defnyddwyr a dderbyniwyd gan y cwmni ym mis Awst 2008 yn gyflawn. Gwelwyd 7 achos ble nad oedd y Gwasanaethau wedi derbyn disgownt cywir neu ddim disgownt o gwbl ar y pryniant gyda'r cerdyn. Mae swyddog o'r Uned Caffael wedi cysylltu gyda'r cwmni er mwyn cywiro'r problemau amlygwyd yn ystod yr archwiliad.

Sefydlwyd cytundeb gyda cwmni nwyddau swyddfa er mwyn darparu deunyddiau swyddfa, gwelwyd bu adolygiad 6 mis wedi sefydlu'r cytundeb, ond nid oes adolygiad pellach wedi ei gynnal ar ddefnydd y cytundeb. Gwelwyd bod yr Uned Caffael wedi llwyddo i sicrhau fod y gwasanaethau'n defnyddio'r cwmni fel prif gyflenwr, gan fod y cwmni yn derbyn canran uchel o'r gwariant ar ddeunyddiau swyddfa, yn ogystal â chwrdd gyda'r targed a osodwyd gan Fwrdd y Cyngor ynghylch pryniant papur wedi ei ail-gylchu.

Nodwyd fod yr Uned Caffael wedi addasu eu trefniadau gweithio, gan sicrhau mai un swyddog sydd yn gyfrifol am gytundeb neu drefniant.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau rheoli cytundebau corfforaethol ar ôl eu gosod gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Darganfuwyd colledion yn deillio o'r gwendid rheolaeth, fodd bynnag mae'r Uned Caffael yn y broses o geisio adennill y colledion. Mae rhai o'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Caffael ofyn am restr gyflawn o ddefnyddwyr y cerdyn pryniant gan y cwmni, gan nodi nad oedd y rhestr wreiddiol a dderbyniwyd yn gyflawn.**
- **Dylai'r Uned Caffael sicrhau y rhoddir ystyriaeth i sut a phwy sydd am reoli a monitro'r cytundebau fel rhan o'r broses sefydlu cytundeb.**

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL – PENDERFYNIADAU PWYLLGORAU AC ARWEINYDDION PORTFFOLIO
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd archwilio i benderfyniadau a wneir gan Fwrdd y Cyngor, pwyllgorau eraill ac Arweinyddion Portffolio er mwyn rhoi sicrwydd ar gyfreithlondeb a phriodoldeb y penderfyniadau hyn. Gwneir hyn drwy sicrhau fod penderfyniadau a wnaethpwyd wedi bod yn destun craffu addas ac yn cydymffurfio â gofynion y cynlluniau dirprwyo yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a thrwy adolygu pa swyddogion sydd yn darparu adroddiadau i bwyllgorau ar gyfer penderfyniad.

Cwmpas yr Archwiliad

Bydd yr archwiliad wedi ei gyfyngu i benderfyniadau a wneir gan Fwrdd y Cyngor ac Arweinyddion Portffolio, a Phwyllgorau eraill sydd yn gwneud penderfyniadau lle nad oes hawl gan Fwrdd y Cyngor i wneud hynny.

Prif Ddarganfyddiadau

Adolygwyd 28 penderfyniad a wnaed gan bwyllgorau'r Cyngor a'r Arweinyddion Portffolio, ni welwyd yr un achos ble gwrthodwyd argymhellion. Fodd bynnag, gwelwyd nad oes trefn i gofnodi rhesymau pam mae'r Pwyllgorau'n cymeradwyo neu'n gwrthod yr argymhelliad.

Ar y cyfan gwelwyd fod trefniadau yn ymlynu gyda'r cynlluniau dirprwyo a chanllawiau eraill, ond roedd un achos lle roedd Arweinydd Portffolio wedi cymeradwyo cais am grantiau gyda swm uwch na'r lefel a bennwyd yn y cynllun dirprwyo.

Gwnaed penderfyniad i osod eiddo'r Cyngor am gyfnod di-rent o 12 mis i fudiad gwirfoddol. Nid oes gofyniad i dderbyn sylwadau'r Swyddogion Statudol ar gyfer penderfyniad o'r fath, fodd bynnag gan fod y cyfryw benderfyniadau yn ymwneud â cholli incwm, dylid ystyried derbyn barn y Prif Swyddog Cyllid.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau'r aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried os yw'n ymarferol nodi brawddeg yng nghofnodion y Pwyllgorau sydd yn manylu'r rhesymau pam fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r argymhelliad. Mae'n hanfodol y ceir rhesymau ynghylch pam fod y Pwyllgor yn gwrthwynebu'r argymhelliad neu'n mynd yn groes i bolisi'r Cyngor.**

Llyfryddiaeth:

Cyfansoddiad: Cyfrifoldebau am Swyddogaeth (Rhan 3)
Canllawiau Adrodd i Bwyllgorau

# EFFAITH ARBEDION ARIANNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau nad yw'r newidiadau mewn gweithgareddau sydd wedi eu hadnabod fel arbedion yn arwain at fygythiadau i'r Cyngor neu'n effeithio ar reolaeth risg. Nid yw'r archwiliad yn cynnwys adolygiad ar sut cyfrifwyd cyfansymiau'r arbedion.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewiswyd sampl o arbedion adroddwyd i'r Pwyllgorau Craffu ym mis Rhagfyr 2007. Trafodwyd gyda'r Rheolwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol ynghylch beth oedd y newid mewn gweithgaredd ynghyd â pha ystyriaeth a roddwyd i'r effaith y byddai'r arbediad yn ei gael ar y gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod Rheolwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi rhoi ystyriaeth i'r effaith a'r risgiau byddai'r newidiadau mewn gweithgareddau yn ei gael ar eu gwasanaethau. Credir fod gweithredu rhai o'r newidiadau a archwiliwyd ar gyfer dibenion yr archwiliad hwn, yn creu elfen fechan o risg i'r Gwasanaethau, fodd bynnag credir fod modd rheoli'r risg drwy sicrhau bod rheolaethau cyfadferol (compensating controls) yn bodoli.

Amlygwyd achos ble bu toriad mewn swydd, ond yn dilyn ail-strwythuro'r Gwasanaeth byddai'r swydd wedi bod yn fuddiol i ddelio gyda chyfrifoldebau ychwanegol a drosglwyddwyd i'r Gwasanaeth. Dylai Rheolwyr ystyried sut gall newidiadau posib yn y dyfodol (megis newidiadau mewn deddfwriaeth neu o fewn y Cyngor) effeithio ar y Gwasanaeth/Uned wedi iddynt weithredu newidiadau mewn gweithgaredd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol yn nhrefniadau'r Rheolwyr a'r Penaethiaid i ystyried goblygiadau'r newidiadau mewn gweithgareddau ar drefniadau eu Gwasanaeth, ynghyd ag ystyriaeth o unrhyw risgiau sydd yn deillio o'r newidiadau. Mae elfen o risg gyda'r newidiadau, fodd bynnag credir fod modd monitro'r risgiau. Mae'r argymhelliad sydd yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried cynnal trefn o adrodd ar wahaniaethau rhwng y cynlluniau arbedion a gyflwynir i'r pwyllgorau, er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o'r rheswm am yr amrywiad ynghyd âg os oes goblygiad ariannol neu anariannol i'r newidiadau.**

## TREFNIADAU RECRIWTIO A PHENODI STAFF
### Corfforaethol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Cyfadrannau/Gwasanaethau yn cydymffurfio gyda threfniadau recriwtio a phenodi staff y Cyngor.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Dethol sampl o unigolion o wahanol wasanaethau ac ymholi beth oedd y trefniadau a'r camau a gymerwyd i'w penodi. Yna profi, gwerthuso a dilysu'r trefniadau drwy adolygu'r ffeiliau priodol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Darganfuwyd bod y trefniadau yn amrywio yn sylweddol ar draws y Cyfadrannau gyda'r trefniadau o fewn y Gyfadran Adnoddau yn enghraifft gref o ymarfer da. Gwelwyd bod diffygion yn bodoli mewn rhai mannau lle'r oedd angen tynhau ar y trefniadau. Darganfuwyd nad oedd llawer o'r ffeiliau yn cynnwys y dogfennau perthnasol a sawl un heb dystiolaeth o gwbl. Darganfuwyd yn ogystal nad oedd rhai camau wedi eu dilyn wrth benodi sawl unigolyn a phrin iawn y gwnaethpwyd prawf hunaniaeth sydd yn ofyniad statudol.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau recriwtio a phenodi'r pedair Cyfadran, gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid anfon nodyn atgoffa yn mynegi y dylid llenwi ffurflen PEN1 ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w hysbysebu yn fewnol/allanol neu sydd yn gytundeb dros chwe mis.**
- **Dylid sicrhau yn y dyfodol bod y ffurflen PEN2 a ffurflen PEN3 yn cael ei rhoi ar ffeil bersonol unigolyn. Mae hyn yn berthnasol i bob swydd, gan gynnwys swyddi ad-hoc, er mwyn sicrhau trywydd archwilio.**
- **Dylid atgoffa ymgeiswyr o'r angen i dderbyn tystysgrifau h.y. cymwysterau ayb, gan sicrhau wedyn bod llungopïau o'r tystysgrifau hynny yn cael eu rhoi ar ffeil.**
- **Dylid dilyn i fyny ar dystlythyrau a sicrhau bod cofnod o hyn ar ffeil, boed yn e-bost, llythyr neu'n fodd arall o ohebu.**
- **Dylid ystyried wrth ddatblygu achos busnes ar gyfer System Gwybodaeth Adnoddau Dynol Integredig yr angen am fodiwl ar gyfer cofnodi a rheoli gwiriadau a datgeliadau'r Biwro Cofnodion Troseddol.**
- **Er mwyn sicrhau cydymffurfiad a Rhan 8 o Ddeddf Noddfa a Mewnfudo 1996, dylid atgoffa unigolion am y gofyn o dderbyn tystiolaeth o hunaniaeth a bod penodiad yn amodol ar ei dderbyn.**
- **Dylid sicrhau bod llungopi o'r prawf hunaniaeth yn cael ei gynnwys ar ffeil.**
- **Dylid sicrhau fod copi gwreiddiol o'r ffurflen gais ar ffeil er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad o gamweinyddu.**

<u>Llyfryddiaeth:</u>
Gorchymyn Côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol)(Cymru) 2001;
Polisi Recriwtio a Phenodi Cyngor Gwynedd;
Canllawiau ar Gyfer Llenwi'r Ffurflen Gais, Cyngor Gwynedd

# ADOLYGU TROTHWYON GWIRIO
## Gwasanaeth Cyllid

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gwirio anfonebau dros £10,000 a chydarwyddo sieciau sydd dros £10,000 ynghyd â adolygu'r trefniadau mewn perthynas â sieciau agored a gynhyrchir.

Cwmpas yr Archwiliad
Dadansoddi cofnodion y system ariannol ar gyfer 2007/2008 ac ymholi a phrofi beth yw'r rheolaethau sy'n bodoli yn y trefniadau ar gyfer gwirio anfonebau, cydarwyddo sieciau a'r trefniadau sydd yn berthnasol ar gyfer sieciau agored.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn y Gwasanaeth Cyllid. Fodd bynnag, gwelwyd bod diffygion yn bodoli mewn rhai mannau lle'r oedd angen tynhau ar y trefniadau. Darganfuwyd nad oedd rhai swyddogion awdurdodedig yn gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau y cytundeb banc trwy agor sieciau dros £350. Darganfuwyd yn ogystal bod sawl risg ynghlwm i daliadau siec (yn arbennig sieciau agored), a bod nifer helaeth o daliadau yn daliadau siec yn hytrach na thaliadau BACS.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau'r Gwasanaeth Cyllid mewn perthynas â gwirio anfonebau a chydarwyddo sieciau a bod y trothwyon dynodedig yn ddigonol, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion fel a ganlyn:**

- **Dylid anfon neges i'r swyddogion awdurdodedig er mwyn eu hatgoffa o'r trefniadau mewn perthynas â sieciau agored h.y. i beidio ag agor sieciau dros £350.**
- **Dylid adolygu'r credydwyr sydd gyda "sub-type 07" yn system ariannol CedAr er mwyn sicrhau na gyhoeddir sieciau agored yn ddi-angen.**
- **Dylid ystyried yn y dyfodol fod cyflogau staff yn cael eu talu drwy gyfrwng BACS yn hytrach na sieciau.**
- **Dylid llunio "Canllawiau ar Ryddhau Sieciau" i swyddogion awdurdodedig fel eu bod yn ymwybodol o'r gofynion sydd arnynt.**
- **Dylid sicrhau fod cyflenwyr yn darparu eu manylion banc yn y dyfodol, fel bod modd i'r Cyngor wneud taliadau drwy gyfrwng BACS yn hytrach na sieciau.**

# SYSTEM DYLEDWYR – TREFNIADAU ATAL DYLEDION
## Cyfadran Adnoddau

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y broses o atal biliau yn ogystal â sicrhau nad oes oediad yn y drefn adennill wedi atal y dyledion.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd sampl o ddyledion o restr dyledion a gynhyrchwyd o'r system dyledwyr dyddiedig 21/04/08, adolygwyd fod rhesymeg dros atal y dyledion yn ogystal â sicrhau fod gweithrediad priodol ar y dyledion sydd wedi eu hatal.

Prif Ddarganfyddiadau

Mae gan yr Uned Incwm ganllawiau ar gyfer adennill dyledion, fodd bynnag nid oes canllawiau ar gyfer atal dyledion megis amserlen neu brotocol y dylai Gwasanaethau ddilyn wedi iddynt wneud cais i atal dyled. Gwelwyd achosion ble roedd y dyledion wedi eu hatal ac oediad cyn gweithredu ar y dyledion.

Yn ogystal, gwelwyd ei bod yn bosib i'r holl swyddogion sydd gyda mynediad i sgrîn benodol yn system CedAr atal y ddyled. Esboniwyd bod modd rheoli hawliau mynediad gwahanol ddefnyddwyr y system, ond darganfuwyd nam yn y system lle nad oedd hyn yn gweithio. Cadarnhawyd bod Rheolwr Systemau Ariannol wedi cysylltu gyda'r cwmni er mwyn trefnu i gywiro'r nam.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau atal dyledion yr Uned Incwm gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Ni ddarganfuwyd colledion na thwyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu protocol fel bod y gwasanaethau hynny sydd wedi gwneud cais i atal dyledion, yn diweddaru'r Uned Incwm yn gyfnodol o sefyllfa'r ddyled ac os dylid parhau i atal y ddyled.**
- **Dylid ystyried defnyddio cyfeireb anghydfod penodol er mwyn adnabod pob dyled sydd wedi eu hatal ar gais y gwasanaethau.**
- **Dylid sefydlu canllawiau ar gyfer atal dyledion, er mwyn sicrhau cysondeb a gweithrediad rhesymol ar y dyledion sydd wedi eu hatal.**
- **Dylai'r Uned Incwm sefydlu trefniant i sicrhau bod y gwasanaethau'n eu hysbysu'n amserol o unrhyw gyswllt gyda'r cwsmer.**

# ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD CYMRU – RHEOLAETH TWNNEL
## Cyfadran yr Amgylchedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau rheolaeth twnnel Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, ac yn neilltuol y paratoadau sydd ar y gweill er mwyn cydymffurfio gyda Cyfarwyddeb Ewrop ar yr isafswm o ofynion diogelwch i dwneli ffyrdd, sy'n ofynnol i bob twnnel ar Rwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, gan gynnwys tri thwnnel ar lwybr yr A55, i gydffurfio gyda'r safonau gosod.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd adolygu gweithdrefn rheolaeth twneli A55 gan wneud gwerthusiad a dadansoddiad o'r gwaith sydd wedi ei wneud neu ei gomisiynu hyd yn hyn, er mwyn sicrhau bod ACGC, fel Rheolwr Twnnel, yn gallu cwrdd â'i oblygiadau i ymgyrraedd â safonau'r Cyfarwyddeb Ewrop, a'i addasiad DU - Rheoliadau Diolgelwch Twneli Ffyrdd 2007.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn y pen draw, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod twneli yng Nghymru yn cwrdd ag isafswm gofynion diogelwch fel sydd wedi ei osod yng Nghyfarwyddeb Ewrop. Gwelwyd bod trefniadaeth (rheolaeth a gweithredol) wedi cael ei rhoi mewn lle, ac astudiaethau sail risg wedi eu comisiynu gan ACGC i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswydd statudol fel Rheolwr Twnnel. Mae risgiau arwyddocaol yn wynebu Adran Twnnel ACGC, yn nhermau cyllidol a capasiti yn y 5 mlynedd nesaf i sicrhau bod twneli yr A55 yng Ngogledd Cymru yn cydymffurfio gyda'r Cyfarwyddeb. Fodd bynnag, mae rhai o'r risgiau hyn tu allan i reolaeth AGCG.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru i ymgymryd ag ymrwymiad dyletswydd statudol y Rheolwr Twnnel. Mae'r prif argymhelliad a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid cael atodiad i'r Cytundeb Asiantaeth sydd yn ei lle rhwng Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a Cynulliad Cenedlaethol Cymru am swyddogaeth Rheolwr Twnnel.**

Llyfryddiaeth:

Cyfarwyddeb 2004/54/EC o Gyngor a Senedd Ewropeaidd (29 Ebrill 2004)
Y Cyfarwyddeb newydd 2004/54/EC ar Ddiogelwch Twneli Ffyrdd a'i ganlyniadau (cyflwyniad) (Tachwedd 2004)
Rheoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 (Offeryn Statudol Rhif 1520)
Cynllun Busnes a Gwelliant Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru 2005-2011
System Rheolaeth Digwyddiad Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (2008)
Adroddiadau Cynnydd Chwarterol Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (amrywiol)
Cynllun ac amserlen gogyfer twneli A55 yng Ngogledd Cymru Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (2006)
Erthygl 11.5 Adroddiad Cydymffurfiad ar gyfer twneli A55 yng Ngogledd Cymru Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (2007)

# CYNLLUN CEFNOGAETH DECHNEGOL
## Cyfadran Datblygu

Pwrpas yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Cefnogaeth Dechnegol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd sampl o drafodion a cheisiadau grant yn ymwneud â'r cynllun 'Cefnogaeth Dechnegol' gan gwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod y cyrff sy'n gweithredu'r prosiect yn cydymffurfio â chanllawiau'r Undeb Ewropeaidd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Fod y ceisiadau grant a gyflwynwyd yn gywir.
- Fod y gweithwyr sy'n gweinyddu'r grant yn derbyn hyfforddiant priodol.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 18 o feysydd rheolaeth mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 11 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y 'Cynllun Cefnogaeth Dechnegol' ond bod agweddau lle gellir bod wedi tynhau ar rai trefniadau.**

# GRANT LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
# I DROSGLWYDDO RHWNG CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3
## Cyfadran Datblygu

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:
- Fod y Gwasanaeth Ysgolion yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant.
- Fod trosglwyddiadau o'r arian grant a wneir i'r ysgolion wedi eu trin yn gywir.
- Fod dogfennaeth briodol yn cael eu cyflwyno/eu cadw gan yr ysgolion i gefnogi'r gwariant.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiad yn deillio o'r archwiliad oedd bod angen i un dalgylch dynhau ar eu trefniadau drwy sicrhau eu bod yn cadw tystiolaeth i gefnogi pob gwariant yn ymwneud â'r grant.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth arian grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau o hyn allan bod dalgylch Tywyn yn cadw tystiolaeth o bob gwariant sydd yn ymwneud â'r grant ar ffeil priodol, i gefnogi unrhyw ddefnydd o'r arian grant.**
- **Dylid hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o unrhyw danwariant yn ymwneud a grant 2007/08 ar unwaith.**

# CRONFEYDD YMDDIRIEDOL YSGOLION
## Cyfadran Datblygu

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu cronfeydd ymddiriedol ysgolion.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Bod rhestr yn cael ei gadw o'r holl gronfeydd ymddiriedol.
- Bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cynhyrchu i ddangos sefyllfa ariannol y cronfeydd.
- Bod ewyllysiau/llythyron sy'n nodi pwrpas y rhodd yn cael eu cadw yn ddiogel.
- Bod defnydd priodol a cywir yn cael ei wneud o'r cronfeydd.
- Bod arian y cronfeydd yn cael eu buddsoddi'n briodol.

Dewiswyd sampl o 5 ysgol ar gyfer cynnal profion archwilio o'u cronfeydd ymddiriedol, 4 uwchradd ac 1 cynradd. Yn ogystal fe archwiliwyd taenlen rheolaeth cronfeydd ymddiriedol yr Uned Cyllid Datblygu.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd yn bosibl archwilio ewyllysiau/llythyron yn ymwneud â phwrpasau'r cronfeydd ac nad oedd defnydd yn cael ei wneud o rai o'r cronfeydd.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth cronfeydd ymddiriedol ysgolion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod trefn well ar gyfer y dyfodol. Os yw cronfa newydd yn cael ei chreu dylid sicrhau bod yr ewyllys/llythyr sy'n nodi pwrpas y gronfa yn cael ei gadw yn ddiogel ym meddiant Pennaeth yr ysgol gyda chopi yn cael ei anfon i'r Uned Gyfreithiol.**
- **Os yw hi'n anodd i'r ysgolion gadw at yr hyn a nodir yn yr ewyllys dylai'r ysgol ysgrifennu at y Comisiwn Elusennau a gofyn am eu harweiniad ar sut i newid pwrpas y gronfa. Petai achos yn codi lle nad yw'r Comisiwn Elusennau yn fodlon rhoi arweiniad h.y. mewn achosion lle nad yw'r gronfa wedi ei chofrestru, yna gellir cysylltu gyda'r Uned Gyfreithiol am arweiniad pellach.**
- **Yn flynyddol dylai'r Uned Cyllid Datblygu gysylltu gyda'r Uned Cyfrifeg, Cyfadran Adnoddau a gofyn eu barn os fyddai buddsoddiad allanol yn cynhyrchu mwy o log ar gyfer y balansau arian parod uchel yn hytrach na chadw'r arian ym manc y Cyngor.**

# INCWM RHENT TAI
## Cyfadran Gofal

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Sicrhau bod:-

- eiddo wedi ei gyfrifo a manylion yr eiddo yn gyfoes;
- manylion tenantiaeth yn gywir a chyfoes;
- rhent cywir sy'n ddyledus wedi ei gofnodi yn erbyn cyfrif y tenant;
- yr holl rent sy'n ddyledus yn cael ei gasglu;
- yr holl rent sy'n ddyledus drwy ddebyd uniongyrchol yn cael ei dderbyn gan yr awdurdod;
- yr holl incwm sy'n cael ei gasglu drwy gerdyn sweip yn cael ei gyfrifo i'r cyfrif cywir;
- y cyfrifon rhent yn cael eu diweddaru; ôl-ddyledion yn cael eu cadw cyn lleied a phosibl;
- system cyfrifiaduron yn gweithredu yn unol a dulliau gweithredol sydd wedi eu cymeradwyo; bod y system yn cael ei weithredu yn unol â'r Ddeddf Amddiffyn Data 1998;
- newidiadau i'r system a data sy'n cael ei newid/fewnbynnu wedi ei awdurdodi;
- trywydd drwy'r system o ddata yn cael ei fewnbynnu i'r man gorffennol ac i'r gwrthwyneb;
- data yn cael ei brosesu;
- data yn gyflawn a chywir; mynediad i ddata wedi ei gyfyngu i swyddogion awdurdodedig;
- cynhyrchiad, casgliad a dargadwad o allbwn cyfrifiadurol yn cael ei reoli a bod y system a'r data yn gallu cael ei ail-lunio petai trychineb yn digwydd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu trefniadau derbyn incwm, cofnodi a chymodi gyda'r systemau ariannol perthnasol.

<u>Prif Ganlyniadau</u>
Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion archwilio ar 93 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 73 o'r meysydd hyn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol bod y risg o golledion i'r Cyngor wedi ei leihau gymaint ag sy'n bosibl yn incwm rhent tai gan fod rheolaethau mewn lle ond bod rhai agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r argymhellion yn y cynllun gweithredu yn cynnwys y canlynol :**

- **Mae angen sicrhau bod canllawiau yn bodoli ar y camau sydd angen ei ddilyn pan mae tenantiaeth yn newid er mwyn cael cysondeb a sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn ar bob achlysur fydd yn lleihau'r risg o gamgymeriad yn cael eu gwneud.**
- **Dylid monitro perfformiad casglu'r swyddogion rhenti er mwyn sicrhau bod canran boddhaol o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu a lleihau'r risg o golled i'r Cyngor.**
- **Mae angen sicrhau bod cytundeb tenantiaid ysgrifenedig yn bodoli ar bob achlysur gan fod diffyg cytundeb yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gwan wrth geisio adennill arian.**
- **Ni ddylai swyddog sydd yn gyfrifol am adennill ôl-ddyledion gasglu a derbynnebu y rhent ar unrhyw achlysur.**
- **Dylid cael canllawiau mewn lle yn cadarnhau pa swyddog sydd gyda'r hawl i gytuno ôl-ddyledion i fyny at ba lefel h.y. mwy yw'r ddyled yr uwch dylai'r swyddog fod yn cadarnhau'r cytundeb i dalu yn ôl.**

## ANABLEDD CORFF – RHEOLAETH BATHODYNNAU GLAS
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth ariannol Bathodynnau Glas ym mhob ardal yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd sampl o'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2007-08 ynghyd â threfniadau rheolaeth y cynllun.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 33 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 24 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn rheolaeth y bathodynnau glas gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "hanfodol" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Angen sicrhau bod dyletswyddau yn cael eu gwahanu, fel bod mwy na un swyddog yn gyfrifol am godi'r archeb, gwirio'r archeb, derbyn y nwyddau ac ardystio'r anfoneb.**
- **Dylid creu rhestr stoc pan mae'r swyddfa yn derbyn y bathodynnau. Mae angen i'r rhestr stoc gael ei wirio'n flynyddol gan swyddog sydd ddim yn gyfrifol am gadw'r cofnod. Dylai arwyddo a dyddio'r stoc i gadarnhau fod rhifau'r bathodynnau sydd wedi eu nodi yn bodoli.**
- **Dylid sicrhau bod taflenni talu i mewn (TR34) yn cael eu harwyddo gan ddau swyddog a bod y blychau priodol wedi eu llenwi er mwyn sicrhau cywirdeb.**

Llyfryddiaeth
Y Cynllun Bathodyn Glas, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.

# TREFNIADAU AR ALWAD A BRYS
## Cyfadran Gofal

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>

Sicrhau bod:-

- trefniadau i sefydlu'r gwasanaeth wedi ei wneud yn ffurfiol
- trefn addas i dderbyn y gwasanaeth a bod tystiolaeth bod ansawdd i'r gwasanaeth a ddarparwyd i glientau
- y drefn o hawlio'r oriau goramser yn gywir a theg a bod y taflenni yn cael eu cyflwyno'n gyflawn a chywir i'r uned gyflogau
- trefn effeithlon o gofnodi oriau gweithio ac absenoldebau
- cofnodion priodol i gefnogi/ cymeradwyo statws defnyddiwr
- cofnodion priodol o'r holl dreuliau busnes swyddogol a hawlir
- y ceisiadau am deithio a chynhaliaeth yn bona fide
- gwahaniad dyletswyddau yn bodoli yn y drefn o brosesu'r ceisiadau.
- cofnodion priodol o'r holl daliadau a wneir mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth.
- Diweddarir yr holl gofnodion perthnasol i gofnodi'r trafodion.
- trefn adolygu ddigonol ar gostau cyflogau

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>

Profwyd y rheoliadau perthnasol drwy gadarnhau'r trefniadau presennol ac archwilio'r trafodion cyllidol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a blaenorol.

<u>Prif Ganlyniadau</u>

Ar y cyfan gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion archwilio ar 50 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 42 o'r meysydd hyn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol bod y risgiau yn gysylltiedig â'r gwasanaeth Ar Alwad a Brys wedi eu lleihau gymaint ag sy'n bosibl gan fod rheolaethau mewn lle ond bod rhai agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r argymhellion yn y cynllun gweithredu yn cynnwys y canlynol:**

- **Mae angen i'r ddau swyddog lle nad oes tystiolaeth ar ffeil ar eu cyfer, anfon tystysgrifau yn cadarnhau bod ganddynt y cymwysterau angenrheidiol i wneud y swydd.**
- **Mae angen sicrhau bod pob taliad am oramser yn cael ei ardystio i'w dalu gan lofnodwr awdurdodedig ar bob achlysur.**
- **Er mwyn sicrhau cywirdeb yn y taliadau mae angen i ail swyddog gwirio'r cyfrifiad ac arwyddo i gadarnhau eu bod yn cytuno gyda'r swm i'w dalu.**
- **Mae angen creu system lle bod bil y cerdyn credyd tanwydd yn cael ei gyfeirio tuag at reolwr Ar Alwad a Brys er mwyn iddo gadarnhau pa daliadau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ac yn ddilys i'w talu. Dylai'r rheolwr gadarnhau hyn trwy arwyddo a dyddio'r cadarnhad.**
- **Mae angen sicrhau bod copi o dystysgrif yswiriant bob aelod o staff y gwasanaeth yn cael ei yrru i'r Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol cyn y cais nesaf am gostau teithio a chynhaliaeth**
- **Mae angen sicrhau bod pob taliad am gostau teithio a chynhaliaeth yn cael ei ardystio i'w dalu gan lofnodwr awdurdodedig ar bob achlysur.**

# RHODDION I STAFF CARTREFI PRESWYL
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod swyddogion Cartrefi Preswyl yn cydymffurfio gyda'r 'Polisi Rhoddion a Lletygarwch - Swyddogion' ynghyd â sicrhau bod trefniadau mewnol priodol yn bodoli. Rhoddir sylw i'r amcanion rheolaeth canlynol:

- Dylid sicrhau bod 'Polisi Rhoddion a Lletygarwch – Swyddogion' ar gael i holl swyddogion Cartrefi Preswyl,
- Dylai swyddogion Cartrefi Preswyl fod yn ymwybodol o'r 'Polisi Rhodd a Lletygarwch – Swyddogion',
- Bod trefn briodol o wrthod, derbyn a chofrestru 'Rhoddion a Lletygarwch – Swyddogion'.
- Bod rheolaeth dros dderbyn rhodd ariannol drwy gyfrif Answyddogol Staff; a
- Sicrhau bod cofrestr yn bodoli er mwyn nodi pob rhodd a lletygarwch a dderbynnir a gwrthodir.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r drefn a weithredir, cynnal trafodaethau gyda thrawstoriad o swyddogion sydd yn ymwneud â chartrefi preswyl ac archwilio'r gofrestr rhoddion a lletygarwch er mwyn sicrhau fod egwyddorion sylfaenol y polisi yn cael eu gweithredu yn unol â'r gofynion.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 26 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 8 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau rhoddion i staff cartrefi preswyl gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "hanfodol" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y Cartrefi wedi eu hysbysu bod polisi mwy diweddar yn bodoli ac yn cael ei dderbyn yn ogystal â'u hysbysu bod copi ar gael ar y fewnrwyd.**
- **Dylid sicrhau bod 'Polisi Rhoddion a Lletygarwch' yn cael ei gynnwys yn y pecyn cychwyn i swyddogion newydd. Dylid sicrhau bod swyddogion newydd yn arwyddo a dyddio slip i'w ddychwelyd i'r Swyddfa Personél yn cadarnhau eu bod wedi derbyn a deall y polisi hwn. Fydd angen i Uned Bersonél Gofal ddarparu'r polisi i reolwyr ac is-reolwyr y Cartrefi gydag Uned Weinyddol y Gwasanaeth Darparu yn sicrhau bod gweddill y swyddogion yn derbyn y polisi.**
- **Dylid sicrhau bod swyddogion presennol yn derbyn copi o'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch - Swyddogion' gyda slip yw arwyddo gan y swyddog, er mwyn ei ddychwelyd i'r Swyddfa Personél. Mae hyn i gadarnhau bod y Polisi wedi ei ddarllen a'i deall.**
- **Mae angen codi ymwybyddiaeth Rheolwr Cofrestredig pob Cartref bod angen cofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch hyd yn oed pan wrthodir y cynnig.**

Llyfryddiaeth

Polisi Rhoddion a Lletygarwch – Swyddogion
Côd Ymddygiad Staff

# CANOLFANNAU DYDD A GWEITHDAI ANABLEDD DYSGU ARDAL MEIRIONNYDD
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaeth fewnol digonnol yn nhrefniadau`r Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu yn Ardal Meirionnydd

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd prif feysydd ariannol y sefydliadau yn ôl y cofnodion yng nghyfriflyfr y Cyngor yn ogystal â`r rheoliadau perthnasol i Iechyd a Diogelwch. Dewiswyd y sampl archwilio yn ôl dadansoddiad o bennawdau gwariant ac incwm fesul sefydliad a chymharu ar draws sefydliadau, er mwyn canolbwyntio ar yr agweddau priodol mewn sefydliadau unigol ac mewn gwahanol ardaloedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 54 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 45 o`r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn rheolaeth y Canolfannau Dydd /Gweithdai Anabledd Dysgu gan fod rheolaethau mewn lle ond bod rhai agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae`r argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn :**

- **Dylid ystyried fod y cyfradd cyflog i weithwyr yn caei ei adolygu a'i gymeradwyo yn flynyddol**
- **Dylid sicrhau fod taflenni'r llyfr llog yn cael ei wirio yn drylwyr a'i harwyddo i gadarnhau fod y gwiriad wedi cymryd lle. Dylid gwirio yn rheolaidd fod y milltiroedd y nodwyd yn cysoni gyda'r millitiroedd ar y cerbyd**
- **Dylid ysgrifennu dyddiad derbyn nwyddau/gwasnaeth ar yr archeb swyddogol i gadarnhau eu bod wedi eu derbyn**
- **Dylid sicrhau bod gan yr Uned Daliadau dystiolaeth o lofnod y swyddogion sydd gyda'r hawl i arwyddo'r TR257, a bod y swyddogion sy'n ardystio'r TR257 gyda rhestr o swyddogion sydd gyda hawl i ardystio anfonebau**
- **Dylid sicrhau fod staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol neu'n ddigon profiadol i wneud y gwaith h.y. wedi cwblhau'r cymwysterau angenrheidiol**

# CARTREF HENOED PLAS OGWEN, BETHESDA
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ariannol Cartref Plas Ogwen, Bethesda yn briodol ac unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr y Cyngor ynghyd â threfniadau rheolaeth y cartref.

Prif Ganlyniadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 63 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 41 o'r meysydd hyn, gyda 5 o'r meysydd ddim yn berthnasol bellach.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o brioldeb ariannol yng nghartref Plas Ogwen, Bethesda gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "uchel" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:-**

- **Dylid trefnu fod gweithwyr achlysurol yn derbyn llythyr penodi gan y Cartref.**
- **Dylid ysgrifennu dyddiad derbyn nwyddau/gwasanaeth ar yr archeb swyddogol i gadarnhau eu bod wedi eu derbyn**
- **Dylid sicrhau fod yr amcan cost yn cael ei nodi ar archeb cyn bo'r anfoneb yn cyrraedd y swyddfa**
- **Dylid sicrhau fod gwahaniad priodol mewn dyletswyddau rhwng archebu ac ardystio**
- **Dylid sicrhau fod dau berson yn llofnodi'r cardiau unigol ar bob achlysur er mwyn cadarnhau fod y wybodaeth yn gywir**
- **Dylid cadw cofnodion o gwariant ag incwm y cyfrif amwynder yn y cartref, gyda balans rhedegog y cyfrif. Dylid gwirio yn rheolaidd fod yr adroddiad cyfrif amwynder a'r lejer yn cysoni gyda'r cofnodion yn y cartref**

# CARTREF HENOED PLAS PENGWAITH, LLANBERIS
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol Cartref Plas Pengwaith, Llanberis yn briodol ac unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2007-08 ynghyd a threfniadau rheolaeth y cartrefi.

Prif Ganlyniadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 63 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 43 o'r meysydd hyn, gyda 7 o'r meysydd ddim yn berthnasol bellach.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o brioldeb ariannol yng nghartref Plas Pengwaith, Llanberis gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "uchel" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a canlyn:-**

- **Dylid gwirio'r rhestr fisol o gyflogau gweithwyr yn drylwyr er mwyn sicrhau nad yw'r Cartref yn talu cyflog swyddog na ddylent. Yn ychwanegol, dylid ymchwilio i'r anghysonded darganfuwyd yn y rhestr gweithwyr er mwyn addasu unrhyw gamgymeriadau yn y gorffennol.**
- **Dylid trefnu fod gweithwyr achlysurol yn derbyn llythyr penodi gan y cartref**
- **Dylid sicrhau fod archeb yn cael ei godi pan mae'r nwyddau/gwasanaeth yn cael ei archebu ac nid ar ôl derbyn y nwyddau neu'r anfoneb**
- **Dylid ysgrifennu dyddiad derbyn nwyddau/gwasanaeth ar yr archeb swyddogol i sicrhau eu bod wedi eu derbyn**
- **Dylid cadw cofnodion o wariant ac incwm y cyfrif amwynder yn y cartref, gyda balans rhedegog y cyfrif. Dylid gwirio yn rheolaidd fod yr adroddiad cyfrif amwynder o'r lejer yn cysoni gyda'r cofnodion yn y cartref**

# CARTREF HENOED PLAS GWILYM, PENYGROES
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Cartref Henoed Plas Gwilym, Penygroes yn briodol ac unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2007-08 ynghyd a threfniadau rheolaeth y cartref.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 63 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 40 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghartref Plas Gwilym, Penygroes gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "hanfodol" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod pob gweithwyr achlysurol yn derbyn llythyr penodi gan y Cartref.**
- **Dylid sicrhau bod pob archeb swyddogol yn cael ei arwyddo er mwyn cadarnhau fod yr archeb yn cael ei godi gan swyddog awdurdodedig.**
- **Mae angen sicrhau bod dyddiad codi'r archeb yn cael ei nodi er mwyn sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei godi cyn dyddiad yr anfoneb.**
- **Dylid sicrhau fod pob taliad yn cael ei wneud o fewn mis i ddyddiad derbyn yr anfoneb. Mae angen stampio'r anfoneb er mwyn cofnodi dyddiad a dderbyniwyd.**
- **Mae angen sicrhau bod incwm wedi ei dderbynebu/lofnodi gan ddau swyddog.**